

## Gair i gall

Gellir dod o hyd i fapiau manwl, teithiau undydd ac aml-ddiwrnod, teithiau cylchol, trefnwyr teithiau a chwmnïau cludo bagiau ar [www.llwybrarfordircymru.gov.uk](http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk)

Fe welwch amserlenni cynhwysfawr ar [www.cymraeg.traveline.cymru](http://www.cymraeg.traveline.cymru) neu ewch i wefan New Adventure Travel (N.A.T) [www.natgroup.co.uk](http://www.natgroup.co.uk) am gwasanaethau bysiau sy'n cynnwys Caerdydd, Casnewydd, Pontypridd, Abertawe a Bro Morgannwg. Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd man cychwyn eich taith gerdded a'ch bod yn cerdded i'ch llety/car, yn lle gwneud fel arall.

Er eich diogelwch, cadwch olwg ar amserau'r llanw gan ddefnyddio'r tablau llanw perthnasol: [www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times](http://www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times)

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru i ddilyn eich taith gerdded a chael rhagor o wybodaeth. Chwiliwch am Lwybr Arfordir Cymru yn eich siop apiau.

## Top Tips

Detailed maps, one and multi day itineraries, circular walks, tour organisers and baggage carrying companies can be found on [www.walescoastpath.gov.uk](http://www.walescoastpath.gov.uk)

You will find comprehensive timetables at [www.traveline.cymru](http://www.traveline.cymru) or visit New Adventure Travel (N.A.T) [www.natgroup.co.uk](http://www.natgroup.co.uk) for bus services covering Cardiff, Newport, Pontypridd, Swansea and the Vale of Glamorgan. We recommend that you use public transport to get you to the start of your walk and walk to your accommodation/car instead of the other way round.

For your safety please keep track of the tides using the relevant tide tables: [www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times](http://www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times)

Download the Wales Coast Path App to track your walk and get further information. Search for Wales Coast Path in your app store.

[www.llwybrarfordircymru.gov.uk](http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk)  
[www.walescoastpath.gov.uk](http://www.walescoastpath.gov.uk)



Llun clawr / Cover image: Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Delweddau © Hawffrain y Goron (2020) Croeso Cymru Images  
© Crown copyright (2020) Visit Wales  
Gorffennaf / July 2020

Sganiwch y cod QR hwn i fynd i'n gwefan



Scan this QR code to go to our website

## Arfordir De Cymru ac Aber Afon Hafren

Mae'r llwybr hwn ar hyd arfordir y de'n mynd â chi drwy ddinasoedd prysur, pentrefi tawel a systemau mawr o dwyni tywod i weld golygfeydd godidog Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Bydd golygfeydd gwych hefyd o aber Afon Hafren (sydd â'r amrediad llanw uchaf ond un yn y byd, sef 49 troedfedd/15 metr, ac eger enwog Afon Hafren). Cewch gydgerdded ag amryw byd o adar dŵr ac adar hirgoes, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

### Uchafbwyntiau

- ★ **Arfordir Treftadaeth Morgannwg**  
Dyfarnwyd statws Arfordir Treftadaeth i'r arfordir trawiadol yma yn 1972, ac mae'n gyfle i weld clogwyni mawreddog, traethau euraid a childraethau hardd.
- ★ **Bae Caerdydd**  
Gan fod y llwybr yn mynd drwy galon ddiwylliannol fywiog prifddinas Cymru, manteisiwch ar y cyfle i'w harchwilio!
- ★ **Gwlyptiroedd Casnewydd ac Aber Afon Hafren**  
Dyma gynefin pwysig i adar sy'n dod i'r wlad i dreulio'r gaeaf, ac mae'n gyfle gwych i weld ymwelwyr rheolaidd ac ambell un annisgwyl – dewch â'ch ysbïenddrych.
- ★ **Castell Cas-gwent**  
Mae'r castell yma yn nhref Cas-gwent, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mae'r castell mewn cyflwr arbennig o dda. Cas-gwent yw man cychwyn Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa hefyd.

Hen Bont Gwy, Cas-gwent  
Old Wye Bridge, Chepstow



Traeth Llanilltud Fawr,  
Bro Morgannwg  
Llantwit Major Beach,  
Vale of Glamorgan

## South Wales Coast and Severn Estuary

This southerly coastline takes in city landscapes, quiet villages, major sand dune systems, the spectacular Glamorgan Heritage Coast and magnificent views of the Severn Estuary (the Estuary has the second highest tidal range in the world at 49 feet/15 metres and features the Severn bore). Share your walk with the numerous wildfowl and waders that can be spotted along the way, particularly throughout the winter.

### Highlights

- ★ **Glamorgan Heritage Coast**  
This dramatic coastline, which lies between Porthcawl and Gileston Beach, gained Heritage Coast status in 1972 and features soaring cliffs, golden beaches and romantic coves.
- ★ **Cardiff Bay**  
Explore the vibrant cultural heart of Wales' capital city – it's right on the Path!
- ★ **Newport Wetlands and Severn Estuary**  
An important habitat for overwintering birds, where you may encounter familiar and surprise visitors to our shores and inland – do bring binoculars!
- ★ **Chepstow Castle**  
The beautifully preserved castle can be found in the border town of Chepstow. This picturesque town also marks the start of Offa's Dyke Path (a National Trail).

## Y Codau Cefn Gwlad

Yn dilyn cyngor yn y Codau Cefn Gwlad i fanteisio'n llawn ar eich ymweliad:  
• parchwch bobl eraill  
• diogelwch yr amgylchedd naturiol  
• mwynhewch yr awyr agored a chadwch yn ddiogel

Darllenwch y Codau Cefn Gwlad yn [www.naturalresources.wales/countryside-codes?lang=cy](http://www.naturalresources.wales/countryside-codes?lang=cy)

## Mwynhewch eich taith gerdded

Ewch i wefan Mentro'n Gall Cymru i ganfod awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i fwynhau antur yr arfordir yn ddiogel. [www.adventuresmart.uk/cy/home-cy/](http://www.adventuresmart.uk/cy/home-cy/)

Gallwch ail-lenwi eich potel ddŵr yn ystod eich taith. Lawrlwythwch ap Refill i ddod o hyd i'ch Gorsaf Ail-lenwi leol, gan gael dŵr yfed ffres yn ystod eich taith. [refill.org.uk](http://refill.org.uk)

Afon Aberogwr  
Ogmore River



Gwlyptiroedd Casnewydd  
Newport Wetlands



## Countryside Codes

Follow the advice in the Countryside Codes to get the most out of your visit:  
• respect other people  
• protect the natural environment  
• enjoy the outdoors and stay safe

Read the Countryside Codes at [www.naturalresources.wales/countryside-codes](http://www.naturalresources.wales/countryside-codes)

## Enjoy your walk

Visit the Adventure Smart Wales website for some useful hints and tips on how to enjoy coastal adventure safely. [www.adventuresmart.uk](http://www.adventuresmart.uk)

You can refill your water bottle along the way. Download the Refill App to find your local Refill Station and get fresh drinking water on the go. [refill.org.uk](http://refill.org.uk)



## Arfordir De Cymru ac Aber Afon Hafren South Wales Coast and Severn Estuary

## Crwydro Arfordir Cymru Coastal Walking Wales



# Teithiau cerdded

**Canolfan Cynffig i Borthcawl (7km / 4.5 milltir)**  
 Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yn gartref i degeirianau gwyllt, pryfed a mathau eraill o fywyd gwyllt, ac mae'n lle gwych i gychwyn y daith gerdded bleserus yma sy'n cynnwys rhai o'r traethau gorau yng Nghymru ar gyfer syrrffio a chwaraeon dŵr. Byddwch yn cerdded yn agos at Dŷ'r Sger (Sker House), y cartref hanesyddol sydd, yn ôl rhai, yn llawn bwganod ac a oedd yn sail i nofel R D Blackmore, The Maid of Sker.

**Porthcawl i Gastell Aberogwr (11km / 7 milltir)**  
 Llwybr sy'n cynnwys Traeth yr Afon a'r Warchodfa Natur Genedlaethol ym Merthyr Mawr, ac sy'n diweddu ger y castell a'r cerrig sarn yn Aberogwr.

**Aberogwr i Nash Point (10km / 6.2 milltir)**  
 Mae'r llwybr yma'n dilyn Arfordir Treftadaeth Morgannwg i Nash Point. Dewch i archwilio'r arfordir ysblennydd a dramatig yma. Byddwch yn siŵr o ddod ar draws traethau trawiadol yn ystod y daith.

**Llwybr Bae Caerdydd (10km / 6.2 milltir)**  
 Dyma gyfle i fwynhau treftadaeth amrywiol Caerdydd a ddatblygodd yn sgil y dociau prysur a llwyddiannus. Ar y gylchdaith yma o amgylch y bae, byddwch yn gweld nodweddion hanesyddol fel yr Eglwys Norwyaidd (lle y cafodd Roald Dahl ei fedyddio) ac adeiladau eiconig fel Canolfan Mileniwm Cymru sy'n enwog drwy'r byd.

**Cylchdaith Gwastadeddau Gwent o Wlyptiroedd Casnewydd (12km / 7.5 milltir)**  
 Taith gyffrous, ar dir gwastad yn bennaf ar lwybrau wyneb caled o gwmpas Gwarchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd, sy'n hafan bwysig drwy'r wlad i fywyd gwyllt ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol.

**Cil-y-coed i Sudbrook a Blackrock (5km / 3 milltir)**  
 Mae archwilio'r rhan yma o'r arfordir yn cynnig cyfle i weld golygfeydd hyfryd o aber Afon Hafren. Mae safle hen groesfan i Loegr yn Blackrock, ynghyd â golygfeydd ardderchog a safle picnic hyfryd.

# Suggested walks

**Kenfig Visitor Centre to Porthcawl (7km / 4.5 miles)**  
 Kenfig National Nature Reserve is home to wild orchids, insects and other wildlife and is a great start to this enjoyable walk which takes in some of the best surfing and watersports beaches in Wales. On the way, you will pass near the historic and, some say, haunted Sker house, used as the basis of R D Blackmore's novel, The Maid of Sker.

**Porthcawl to Ogmore Castle (11km / 7 miles)**  
 A walk which includes Traeth yr Afon Beach, the National Nature Reserve at Merthyr Mawr, and ends near the Castle and stepping stones at Ogmore.

**Ogmore by Sea to Nash Point (10k / 6.2 miles)**  
 This walk follows the Glamorgan Heritage Coast towards Nash Point. Explore this spectacular and dramatic coastline. You'll discover some stunning beaches along the way.

**Cardiff Bay Trail (10km / 6.2 miles)**  
 Enjoy Cardiff's rich heritage and it's legacy as a buoyant and successful docks. See historic landmarks on this circular walk around the Bay, like the Norwegian Church (where Roald Dahl was christened) and iconic buildings such as the world renowned Wales Millennium Centre.

**Gwent Levels Circular Walk from Newport Wetlands (12km / 7.5 miles)**  
 An exhilarating, mostly level walk on hard surface paths around Newport Wetlands Reserve, a nationally important haven for wildlife and a National Nature Reserve.

**Caldicot to Sudbrook and Blackrock (5km / 3 miles)**  
 Enjoy some fantastic views over the Severn Estuary while exploring this section of the coast. Blackrock is the site of the old crossing point to England and, as well as a great view point, is a lovely spot for a picnic.

Beth am gofnodi eich taith ar hyd Llwybr Arfordir Cymru? Why not record your Wales Coast Path journey!

# Pasbort | Passport

Arfordir De Cymru ac Aber Afon Hafren  
 South Wales Coast and Severn Estuary

Llwybrau Paths	Milltir Miles	km	Dyddiad Date
Gweunydd Margam / Margam Moors > Porthcawl	8	13	○
Porthcawl > Aberogwr / Ogmore-by-Sea	8	13	○
Aberogwr / Ogmore-by-Sea > Cwm Colhuw (Llantwit Major)	10	16	○
Cwm Colhuw (Llantwit Major) > Y Rhws / Rhoose	8	13	○
Y Rhws / Rhoose > Ynys y Barri / Barry Island	5	8	○
Ynys y Barri / Barry Island > Y Sili / Sully	6	10	○
Y Sili / Sully > Penarth	6	10	○
Penarth > Bae Caerdydd / Cardiff Bay	3	5	○
Bae Caerdydd / Cardiff Bay > Parc Tredelerch	5	8	○
Parc Tredelerch > Lighthouse Park	5	8	○
Lighthouse Park > Casnewydd / Newport	5	8	○
Casnewydd / Newport > Gwlyptiroedd Casnewydd / Newport Wetlands	5	8	○
Gwlyptiroedd Casnewydd / Newport Wetlands > Y Redwig / Redwick	8	13	○
Y Redwig / Redwick > Cil-y-coed / Caldicot	6	10	○
Cil-y-coed / Caldicot > Cas-gwent / Chepstow	9	14	○

Ewch i'n tudalen Pasbortau [www.llwybrarfordircymru.gov.uk/pasbort](http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk/pasbort) i gael manylion am dystysgrifau cwblhau a phethau i gofio eich taith.

Visit our Passport page [www.walescoastpath.gov.uk/passport](http://www.walescoastpath.gov.uk/passport) for details about completion certificates and mementos to commemorate your journey.



# Llwybr Arfordir Cymru

Gydag 870 o filltiroedd i'w troedio, mae gan Llwybr Arfordir Cymru rywbeth i'w gynig i bawb. O archwilio ein treftadaeth a'n diwylliant i gael diwrnod llawn hwyl gyda'r teulu, o roi cynnig ar weithgaredd llawn adrenalin i ymlacio ar draeth bendigedig. Dewch draw i weld beth sy'n gwneud y Llwybr yn gyrchfan awyr agored heb ei ail ac i weld pa mor hawdd yw hi i wneud y Llwybr yn rhan o'ch bywyd bob dydd neu eich gwyliau. I gael mwy o awgrymiadau ynglŷn â'r pethau y gallwch eu gweld a'u gwneud ar y Llwybr, ewch i [www.llwybrarfordircymru.gov.uk](http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk)

# Wales Coast Path

With 870 miles to explore, the Wales Coast Path has something for everyone. From exploring our heritage and culture to having a fun day out with the family, or from trying one of Wales's coastal adrenalin activities to putting your feet upon one of our gorgeous beaches. Dip your toe in and find out why this is such a fantastic outdoor destination and discover just how easy it is to fit the Wales Coast Path in to your daily life or your holiday planning. For more suggestions on what you can see and do on the Wales Coast Path, please visit [www.walescoastpath.gov.uk](http://www.walescoastpath.gov.uk)